



Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd  
National Eisteddfod Cardiff  
3–11 Awst / August 2018

## Eisteddfod Caerdydd 2018

### Cystadlaethau Cyfansoddi

**Dyddiad Cau i Gofrestru: 1 Ebrill 2018 (oni nodir yn wahanol)**

---

**Teitl y Gystadleuaeth:** \_\_\_\_\_

**Rhif y Gystadleuaeth:** \_\_\_\_\_

**Tâl Cofrestru:** \_\_\_\_\_

Ticiwch yn y blwch i gadarnhau eich bod wedi talu:

### Manylion Tâl Cofrestru:

£5 yr ymgais, i'w anfon gyda'r ffurflen erbyn 1 Ebrill (oni nodir yn wahanol)

### Ffugenw

\_\_\_\_\_

Yr wyf fi, sef awdur y gwaith a gyflwynir dan y ffugenw uchod, yn tystio bod fy enw a'm cyfeiriad ar yr amlen dan sêl yn ddilys. Rwyf hefyd yn tystio bod yr holl waith a gyflwynir yn waith gwreiddiol o'm heiddo fy hun yn unig, a heb ei wobrwyo o'r blaen yn yr Eisteddfod Genedlaethol, na'i gyhoeddi yn rhannol nac yn gyfan mewn unrhyw ddull. Ni fyddaf yn cyflwyno'r gwaith i gyhoeddwr hyd nes y bydd y feirniadaeth wedi'i chyhoeddi.

Yr wyf hefyd, trwy hyn, fel perchennog yr hawlfraint ynddo, yn rhoi'r hawl i'r Eisteddfod gyhoeddi'r gwaith am y tro cyntaf yn ystod wythnos yr Eisteddfod, neu o fewn tri mis i ddiwrnod olaf yr Eisteddfod, heb imi dderbyn unrhyw freindal neu daliad arall, a heb ymgynghori â mi. Ymhellach yr wyf yn cydnabod hawliau'r Eisteddfod Genedlaethol yn y gwaith yn y dyfodol yn unol ag Amodau a Rheolau Cyffredinol yr Eisteddfod ac yn benodol Rheol rhif 4.

Ymrwymaf/wn i gydymffurfio â'r Amodau Arbennig a'r Rheolau ac Amodau Cyffredinol.

### Arwyddwyd

\_\_\_\_\_

**Dyddiad** \_\_\_\_\_

### **Nodiadau Cofrestru:**

Cynhelir pob cystadleuaeth yn unol â'r Amodau Arbennig a'r Rheolau ac Amodau Cyffredinol.

Rhaid defnyddio ffurflen wahanol i bob cystadleuaeth. Am gopïau ychwanegol, llungopiwch y ffurflen hon, neu argraffwch gopi o wefan yr Eisteddfod.

## **Cyflwyno Cyfansoddiadau**

### **Nifer y Copïau**

Rhaid i bob ymgeisydd am y Gadair, y Goron, y Fedal Ryddiaith a Gwobr Goffa Daniel Owen, **anfon 3 chopi caled** o'i g/waith at y Trefnydd ynghyd â CD neu go' bach o'r gwaith cyflwynedig.

### **Cyflwyno Gwaith Cyfansoddi**

Rhaid anfon pob cyfansoddiad, ynghyd â'r tâl at y Trefnydd erbyn 1 Ebrill. Mae rhai cystadlaethau yn eithriad i'r rheol hon, sef:

- Gwobr Goffa Daniel Owen (1 Rhagfyr)
- Y Fedal Ryddiaith (1 Rhagfyr)

Rhaid nodi rhif a theitl y gystadleuaeth a ffugenw'r cystadleuydd ar bob cyfansoddiad.

Rhaid i bob cystadleuydd anfon amlen dan sêl sy'n cynnwys y manylion canlynol y tu mewn:

- Rhif a theitl y gystadleuaeth
- Ffugenw'r cystadleuydd
- Enw llawn
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad a chyfeiriad e-bost y cystadleuydd
- Enw cyhoeddwr (os yn berthnasol)

Ni ddylid cynnwys dim arall yn yr amlen.

Rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol ar glawr yr amlen:

- Rhif a theitl y gystadleuaeth
- Ffugenw'r cystadleuydd

### **Iaith**

Rhaid i'r cyfansoddiadau a'r cystadlu fod yn Gymraeg ac eithrio lle nodir yn wahanol dan unrhyw gystadleuaeth unigol.

Rhaid osgoi gor-ddefnydd o'r Saesneg mewn detholiadau a chystadlaethau hunan ddewisiad.

Ni dderbynnir gwaith sy'n cynnwys unrhyw ddeunydd neu gyfeiriad enllibus.

**Dychwelwch y Ffurflen/ni Cofrestru at:  
Elen Huws Elis**

Swyddfa'r Eisteddfod  
Uned 15, Parc Busnes Yr Wyddgrug  
Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint, CH7 1XP

**Os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod yn  
Yr Wyddgrug ar 0845 4090 400**